CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR BRO LLANGELER
2017

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol Nos Lun, Mai 22ain 2017 yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Felindre, Llandysul am 7.30y.h

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a diolchodd i bawb am eu cydweithrediad tra yn y gadair ac i'r Clerc am ei chefnogaeth. Roedd Cyng K Howell yn y cyfarfod hwn fel aelod newydd o'r Cyngor Cymuned.

PRESENNOL: Cyng.- Adrian Thomas (Cadeirydd yn absenoldeb y Cadeirydd etholedig), Jamie Ayres, Ken Howell. Brenda Jones, Marc Rees, Dilwyn Smith, John Wigley. Clerc – Stella Jones

Heddlu – PC K Williams – Mae'r mater ynghylch y lori oedd yn parcio tu allan i Cambrian wedi ei ddelio. Dim poteli i weld yn y parc ar hyn o bryd. Mae ci yn crwydro tu allan i Oaklands – cynigiodd Cyng D Smith gael gair gyda theulu'r perchennog. Mae parcio bob ochr i'r hewl yn Felindre Uchaf yn creu rhwystr ynghyd a ceir ar y palmant yn Stad y Waun – Y Clerc i gael gair gyda adran Tai y Sir yng nghylch hyn.

1. 05/17 YMDDIHEURIADAU: Cyng, John Crossley, Delyth Evans, Nesta Jones, Christopher Jones,

2. 05/17 CADARNHAU COFNODION 2015:
Roedd y cofnodion wedi ei cadarnhau yng nghyfarfod 29:6:2015 Cynigydd: Cyng. C Jones
Eilydd: Cyng. J Ayres

3. 05/17 ETHOL CADEIRYDD:-
Cynigwyd y Cyng. J Crossley gan Cyng. B Jones ac Eiliwyd gan Cyng. K Howell.
Etholwyd Cyng J Crossley

4. 05/17 ETHOL IS-GADEIRYDD:-
Cynigwyd Cyng. Marc Rees yn is Gadeirydd gan Cyng. B Jones ac Eiliwyd gan Cyng. D Smith
Etholwyd Cyng. Marc Rees.

5. 05/17 LWFANS Y CADEIRYDD:
Am y flwyddyn 2017 – 2018 cynigwyd codi'r lwfans i £550 i'w dalu ar ddechrau ei th/dymor yn y gadair.
Cynigwyd gan Cyng. J Wigley ac Eiliwyd gan Cyng. J Ayres

6. 05/17 CYFLOG Y CLERC: Penderfynwyd codi'r cyflog o £433.33 y mis i £550

7. 05/17 MANTOLEN 2016 – 2017:
Derbyniwyd y fantolen wedi ei archwilio a'i chael yn gywir gan yr Archwilydd Mewnol – Mrs Ann James
Cynigydd – Cyng. Marc Rees *Eilydd* – Cyng. Ken Howell

8. 05/17 APWYNTIO ARCHWILYDD MEWNOL am 2017-18:
Cytunwyd i ofyn i Mrs Ann James o Gapel Iwan i fod yn Archwilydd Mewnol eto am y flwyddyn 2017-18.

9. 05/17 CYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU
Neuadd y Ddraig Goch - Cyng. Christopher Jones
Parc Puw Drefach - Felindre - Cyng. Ken Howell
Llywodraethwyr Bryn Saron - Cyng. John Wigley
Llywodraethwyr Penboyr - Cyng. Dilwyn Smith
Y Pwerdy Llandysul - Cyng. Jamie Ayres
Clwb Garddio – Cyng. John Wigley

10. 05/17 MATERION CYFANSODDIADOL:
Cytunwyd i dderbyn y cynnig bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar nos Lun olaf bob mis am 7.30y.h arwahan i fisoedd Awst a Rhagfyr pan na fydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal. Ym mis Mai os bydd y dydd Llun olaf yn cwympo ar Ŵyl y Banc bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal ar y nos Lun wythnos cynt. Yr un peth i ddigwydd os bydd unrhyw nos Lun cyfarfod arall, yn ystod y flwyddyn, yn syrthio ar Ŵyl y Banc yr un fydd y drefn.

Unrhyw fater angen gwaith cyfreithiol i gael ei ddelio gyda Mrs Eleri Thomas & Co, Cyfreithwyr, CN Emlyn

Dyddiadau Cyfarfodydd 2017/18
2017:- Mehefin 26ain, Gorffennaf 31ain, Medi 25ain, Hydref 31, Tachwedd 30ain,
2018:- Ionawr 29ain, Chwefror 26ain, Mawrth 26ain, Ebrill 30ain, Mai 21ain

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00yh

_____Cadeirydd _____Dyddiad